# Rhestr wirio o’r neuadd i’r tŷ

**O’r biliau sydd angen eu trefnu, i ffyrdd hawdd o gadw at gyllideb.**

Mae symud allan o’r neuadd ac i le gyda’ch ffrindiau yn gyffrous – ond fel unrhyw symud, mae’n gallu bod yn straen. Dyma restr o bethau y bydd angen i chi eu gwneud a’u cadw mewn cof.

### Rhestr biliau’r tŷ

- Rhent
- Treth Cyngor (os ydych yn fyfyriwr llawn amser, dylech wneud cais am eithriad)
- Band eang
- Nwy a Thrydan
- Dŵr
- Trwydded Deledu

## Rhestr o bethau i’w gwneud

**Enwebu rhywun i ofalu am filiau’r tŷ**

Nhw fydd yn gofalu am gyfrifon biliau cyfleustodau a thaliadau, fel bod popeth wedi’i drefnu.


**Cytuno ar rota golchi dillad**

Felly mae gan bawb ohonoch amser i olchi a sychu eich dillad (ffarwél Febreze, helo fresh threads).

**Dewis rhywun i siopa am fwyd a’i goginio**

Fel hyn, bydd pawb yn cyfrannu at dasgau o ddydd i ddydd.

Defnyddiwch y dudalen nesaf i wneud nodiadau... !



## Helpu gyda’r gyllideb

- Bydded tywyllwch – diffoddwch y goleuadau a’r teledu pan fyddwch yn gadael y stafell.
- Gosodwch amserydd ar eich gwres a’ch dŵr poeth.
- Rhowch gynnig ar rannu car gyda chyd-letywr neu ffrind i arbed tanwydd.
- Cadwch olwg ar eich gwario gydag ap cyllid.
- Prynwch werslyfrau ail-law.
- Gallwch leihau costau teithio gyda Cherdyn Rheilffordd Myfyrwyr.
- Gallwch goginio a rhewi swp o’ch hoff fwyd i arbed amser ac arian.

### Oeddech chi’n gwybod? ? ?

Os ydych yn byw mewn tŷ neu fflat sy’n rhannu’r brydles, gallwch rannu Trwydded Deledu hefyd. Oes gennych chi gytundeb tenantiaeth ar wahân? Bydd arnoch angen eich trwydded eich hun.

**I gael gwybod mwy**

tvl.co.uk/prifysgol
(yn Saesneg)

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU



# Eich rhestr wirio o'r neuadd i'r tŷ

Nodwch unrhyw beth arall sydd angen i chi ei wneud, a phwy fydd yn gwneud beth o gwmpas y tŷ:

